PWYLLGOR CYNLLUNIO
9 MAWRTH 2022

EITEM YCHWANEGOL

ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO, GWARCHOD Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CEFN GWLAD

PIBLINELL CARBON DEUOCSID HYNET NORTH WEST - PROSIECT ISADEILEDD SYLWEDDOL CENEDLAETHOL

YMATEB I'R YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO STATUDOL

1. PWRPAS YR ADRODDIAD:

1.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cael gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol ar y Biblinell Carbon Deuocsid HyNet North West arfaethedig.

1.2 Ymgynghorwyd â Chyngor Sir Ddinbych fel awdurdod lleol cyfagos.

1.3 Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 9 Chwefror a bydd yn parhau tan 22 Mawrth 2022.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cytundeb gan Aelodau i beidio â chyflwyno arsylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ar ran y Cyngor. Mae'r rhesymau dros hyn yn cael eu hegluro isod gydag ymateb awgrymedig y Cyngor wedi'i gynnwys yn y rhan penderfyniad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

2. CEFNDIR:

2.1 Mae HyNet North West yn Brosiect cyflenwad hydrogen a Dal a Storio Carbon arfaethedig, wedi'i wneud o wahanol elfennau, yn cynnwys Piblinell Carbon Deuocsid.

2.2 Mae'r elfen Piblinell Carbon Deuocsid arfaethedig yn cael ei ystyried fel Prosiect Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol. Mae'r Cynnig yn gorwedd o fewn ardaloedd gweinyddol Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer a Chyngor Sir y Fflint.

2.3 O dan Ddeddf Cynllunio 2008, cyflwynir caniatâd am Brosiectau Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol drwy Orchymyn Caniatâd Datblygu (offeryn statudol) yn hytrach na chaniatâd cynllunio.

2.4 Cyflwynir ceisiadau am Orchmynion Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio i gael eu hasesu, a bydd Ysgrifennydd Gwladol perthnasol y DU yn gwneud penderfyniad yn eu cylch.

2.5 Cyn cyflwyno cais i'r Arolygiaeth Gynllunio, rhaid i'r datblygwr gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ffurfiol gyda'r cyrff statudol a'r gymuned leol.

2.6 Mae awdurdodau lleol cynnal ac awdurdodau lleol cyfagos yn ymgyngoreion statudol.

2.7 Unwaith y bydd cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu wedi cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio, bydd awdurdodau lleol ac ymgyngoreion eraill a effeithir yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y cais.

3. HYNET NORTHWEST

3.1 Mae HyNet North West yn brosiect cyflenwad hydrogen a Dal a Storio Carbon arfaethedig, sy'n cael ei hyrwyddo gan Liverpool Bay CCS Ltd (y 'datblygwr').

3.2 Mae prosiect HyNet North West yn cynnwys nifer o elfennau gwahanol, sydd wedi'u crynhoi isod:

- Peiriannau Cynhyrchu Hydrogen;
- Rhwydwaith Hydrogen;

- Storio Hydrogen;
- Dal Carbon;
- Peiriannau Cywasgu;
- Piblinellau ar y tir/ ar y môr newydd ac wedi'u haddasu i gludo CO2 (rhwng Swydd Gaer, Sir y Fflint ac ar y môr);
- Storfa Carbon Deuocsid ar y Môr.

3.3 Mae'r cynllun isod yn gynrychiolaeth ddangosol o'r Prosiect HyNet North West a gymerwyd o Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol y datblygwr:



3.4 Bydd gwahanol elfennau o'r prosiect angen cydsyniad ar wahân gan y corff cymeradwyo perthnasol.

4. PIBLINELL CARBON DEUOCSID:

4.1 Mae'r ymgynghoriad presennol yn ymwneud â'r biblinell carbon deuocsid ar y tir arfaethedig i gludo allyriadau carbon deuocsid wedi'u dal o'r diwydiant presennol, a'r peiriant cynhyrchu hydrogen HyNet newydd arfaethedig yn Stanlow, i gael ei storio yn barhaol ar y môr mewn adnoddau nwy gwag dan Fae Lerpwl.

4.2 Mae'r biblinell ar y tir, sy'n cynnwys ychydig o isadeiledd uwchben y tir, wedi'i gynnig o fewn ardaloedd gweinyddol Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer a Chyngor Sir y Fflint.

4.3 Mae tair adran o biblinell ar y tir newydd sy'n ffurfio rhan o Ddatblygiad Arfaethedig y Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn amodol ar yr ymgynghoriad cyfredol:

- Piblinell AGI (Gosod Uwchlaw'r Ddaear) Ince i AGI Stanlow.
- Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint.

- Piblinell AGI y Fflint i Gysylltiad y Fflint.

4.4 Bydd y biblinell newydd yn cysylltu â Chysylltiad y Fflint presennol i Biblinell Terfynell Y Parlwr Du sy'n cael ei addasu i gludo carbon deuocsid yn hytrach na nwy naturiol.

4.5 Mae'r map isod wedi'i dynnu o wefan prosiect y datblygwr, ac yn dangos llwybr y biblinell carbon deuocsid arfaethedig:



5. YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO STATUDOL:

5.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol. Mae copi o hwn a dogfennau ymgynghori eraill ar gael ar wefan y prosiect yma: www.hynethub.co.uk

5.2 Ym marn y Swyddogion, yr unig elfen o'r datblygiad arfaethedig sy'n berthnasol i fuddiannau Cyngor Sir Ddinbych yw newid defnydd y biblinell presennol o'r Parlwr Du i Gysylltiad y Fflint sy'n arfaethedig i gael ei addasu ar gyfer cludo carbon deuocsid yn hytrach na nwy naturiol.

5.3 Wedi'i seilio ar gasgliadau'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol, ni fyddai'r elfen hon o'r cynnig yn achosi unrhyw effaith andwyol uniongyrchol ar fuddiannau Sir Ddinbych.

5.4 Bydd angen cynnal gwaith ar derfynell nwy presennol Y Parlwr Du, sy'n gorwedd yn agos at ffin Sir Ddinbych i hwyluso allforio carbon deuocsid ar y môr. Byddai Swyddogion yn nodi y byddai gwaith o'r fath yn cael ei ystyried fel 'datblygiad cysylltiedig' sy'n disgyn y tu allan i gwmpas beth ellir ei gynnwys yn y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Felly nid yw gwaith ar derfynell Y Parlwr Du yn rhan o'r ymgynghoriad presennol, ac yn hytrach bydd angen caniatâd cynllunio ar wahân gan Gyngor Sir y Fflint.

5.5 Yn debyg, mae'r gwaith ar y môr sydd angen ei wneud i hwyluso storio'r carbon deuocsid yn yr adnoddau nwy gwag ym Mae Lerpwl hefyd yn disgyn y tu allan i gwmpas y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Felly nid yw'r gwaith ar y môr yn rhan o'r ymgynghoriad presennol, ac yn amodol ar drefn gydsynio ar wahân.

6. PENDERFYNIAD:

6.1 Nid oes unrhyw waith yn arfaethedig yn ardal weinyddol Cyngor Sir Ddinbych, ac ar sail casgliadau'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol, ni fyddai addasu'r biblinell o'r Parlwr Du i Gysylltiad y Fflint yn arwain at unrhyw effaith andwyol uniongyrchol ar fuddiannau Sir Ddinbych.

6.2 Felly ceisir cymeradwyaeth Aelodau i gyflwyno'r ymateb canlynol i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio:

Nid yw Cyngor Sir Ddinbych, fel awdurdod cyfagos eisiau gwneud unrhyw arsylwadau ar Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol y biblinell carbon deuocsid arfaethedig ar hyn o bryd, fodd bynnag mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i roi sylwadau ar y cynnig ar y cam ymgeisio, ac i roi sylwadau ar elfennau eraill o'r Prosiect HyNet North West.

6.3 Atgoffir Aelodau bod croeso iddynt ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad yn eu rhinwedd fel Cynghorydd ward neu fel aelod o'r cyhoedd.

EMLYN JONES PENNAETH CYNLLUNIO, GWARCHOD Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CEFN GWLAD